# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 15 Ionawr 2014**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(172)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 9 gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.21

Gofynnwyd y ddau gwestiwn.

### 3 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Dechreuodd yr eitem am 14.25

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Atebwyd cwestiynau 6, 7, 9, 11 a 12 gan y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi.

### 4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.10

**NDM5397 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi llwyddiannau rygbi rhyngwladol Cymru yn ddiweddar a phwysigrwydd rygbi i ddiwylliant ac i economi Cymru.

2. Yn nodi'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd rhwng Undeb Rygbi Cymru a Rygbi Rhanbarthol Cymru ynghylch dyfodol rygbi Cymru ac yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a chynnal strwythur cryf ar lawr gwlad ac yn rhanbarthol er mwyn i'r gamp allu datblygu a ffynnu ledled Cymru.

3. Yn credu er mwyn cael llwyfan cryf ar gyfer rygbi Cymru ei bod yn rhaid i gyrff a chlybiau cenedlaethol a rhanbarthol gydweithio'n adeiladol er mwyn creu sylfaen ariannol gref er lles y gamp yn y dyfodol ac yn gobeithio y bydd y trafodaethau cyfredol yn arwain at benderfyniad yn gyflym.
**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 16.06

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5398 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu bod Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn gryfach gyda'i gilydd fel rhan o'r Deyrnas Unedig.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 44 | 57 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

1. Yn credu y bydd y berthynas rhwng gwledydd Prydain yn cael ei chryfhau drwy barchu hawl pobloedd Prydain i benderfynu ar eu dyfodol cenedlaethol eu hunain.

2. Yn credu hefyd mai setliad cymdeithasol ac economaidd newydd o bartneriaid cyfartal fyddai'r ffordd orau o ddarparu cyd-destun teg a pharhaol ar gyfer cydweithredu yn yr ynysoedd hyn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 47 | 58 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:

'gyda mwy o bwerau wedi'u datganoli i bob un o'r pedair gwlad'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 13 | 0 | 58 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r hyn y mae datganoli wedi'i wneud i wella democratiaeth yng Nghymru a'r Alban, a'i gyfraniad at y broses heddwch yng Ngogledd Iwerddon.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 58 | 0 | 0 | 58 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn gryfach gyda'i gilydd fel rhan o'r Deyrnas Unedig gyda mwy o bwerau wedi'u datganoli i bob un o'r pedair gwlad.

2. Yn croesawu'r hyn y mae datganoli wedi'i wneud i wella democratiaeth yng Nghymru a'r Alban, a'i gyfraniad at y broses heddwch yng Ngogledd Iwerddon.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 11 | 58 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**6 Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 17.01

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5399 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu ac i weithredu cynllun gweithlu GIG cenedlaethol newydd ar gyfer y degawd nesaf ac i gynyddu'r gweithlu meddygol yn sylweddol yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 47 | 58 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu 'ac i gynyddu'r gweithlu meddygol yn sylweddol yng Nghymru' a rhoi yn ei le 'i fynd i'r afael â heriau recriwtio yng ngwasanaeth iechyd Cymru'
Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 11 | 58 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu sut y mae'n bwriadu defnyddio'r £180 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i wasanaeth iechyd Cymru ar gyfer 2014-15 yn dilyn argymhellion Adroddiad Francis, er mwyn ymateb i faterion o ran y gweithlu yn GIG Cymru.

Mae Adroddiad Francis ar gael yn:

http://www.midstaffspublicinquiry.com/report

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 58 | 0 | 0 | 58 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu mai ychydig iawn o effaith y mae ymgyrchoedd recriwtio Llywodraeth Cymru, fel Gweithio dros Gymru, wedi ei chael o ran lliniaru'r prinder o glinigwyr mewn rhai disgyblaethau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 30 | 59 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau mewn rhai ysbytai yng Nghymru wedi bod yn anfanteisiol wrth geisio recriwtio staff.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 30 | 59 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r gwariant uchel ar staff locwm ac asiantaeth ar draws byrddau iechyd yng Nghymru o ganlyniadau i heriau o ran y gweithlu.
Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 30 | 59 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod angen GIG sydd ag adnoddau priodol a phwysigrwydd buddsoddi mewn hyfforddiant a swyddi parhaol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 57 | 0 | 0 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio**:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu ac i weithredu cynllun gweithlu GIG cenedlaethol newydd ar gyfer y degawd nesaf i fynd i'r afael â heriau recriwtio yng ngwasanaeth iechyd Cymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu sut y mae'n bwriadu defnyddio'r £180 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i wasanaeth iechyd Cymru ar gyfer 2014-15 yn dilyn argymhellion Adroddiad Francis, er mwyn ymateb i faterion o ran y gweithlu yn GIG Cymru.

Mae Adroddiad Francis ar gael yn:

http://www.midstaffspublicinquiry.com/report

3. Yn cydnabod bod angen GIG sydd ag adnoddau priodol a phwysigrwydd buddsoddi mewn hyfforddiant a swyddi parhaol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 30 | 59 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig fel y'i diwygiwyd. Felly, gwrthodwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 18.01

**Crynodeb o Bleidleisiau**

**7 Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 18.08

**NDM5391 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** Pam mae undebaeth lafur yn dal yn bwysig yng Nghymru

Archwilio sut y mae undebau llafur wedi esblygu yng Nghymru wrth iddynt barhau i gynrychioli buddiannau a phryderon eu haelodau, yn enwedig yn yr hinsawdd o gyni sydd ohoni.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:25

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 21 Ionawr 2014**